Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y sawl a oedd yn bresennol:

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Simon Pickering (Cadeirydd) | Llywodraeth Cymru – Pennaeth Hamdden Awyr Agored a Thirweddau |
| Jont Bulbeck | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Eifion Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) | Yn cynrychioli'r 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r 5 Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| Ben Sears | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Adrian Walls | Gweithgor Rheolwyr Hawliau Tramwy Cymru |

Cymorth technegol ac ysgrifenyddol:

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Tom Cosson | Llywodraeth Cymru - Hamdden Awyr Agored a Thirweddau |
| Sarah Smith | Llywodraeth Cymru - Hamdden Awyr Agored a Thirweddau |
| Joe Roberts | Cyfoeth Naturiol Cymru |

| Penderfyniadau allweddol a chamau gweithredu sy'n codi | Perchennog |
|---|---|
| **Croeso a chyflwyniadau**<br>1. Yr aelodau i roi gwybod i Sarah am eu dirprwyon cyn y cyfarfod nesaf | Pawb |
| **Cylch gorchwyl**<br>2. Cytunodd y Grŵp y bydd penderfyniadau a chamau gweithredu allweddol yn cael eu cyhoeddi a'u rhannu ar dudalen gwefan Diwygio Mynediad Llywodraeth Cymru.<br>3. Cytunodd y Grŵp fod angen iddynt fod yn ystyriol o ran yr amser y bydd yn ei gymryd i'r aelodau ymgynghori â'r rhai y maent yn eu cynrychioli.<br>4. Cytunwyd y dylai diben y Grŵp Llywio a'r Grwpiau Arbenigol fod yn glir.<br>5. Mae angen dileu rhywfaint o'r testun sy'n cael ei ailadrodd yn y ddogfen. | Sarah i ddiwygio'r cylch gorchwyl a'i rannu gyda'r nodyn cyfarfod. |

| | |
|---|---|
| 6. Cytunodd y Grŵp i ystyried platform rhannu dogfennau ar-lein ar gyfer y Grŵp Llywio a’r Grwpiau Arbenigol. | Adrian |
| **Trosolwg, nodau ac allbynnau’r Rhaglen Diwygio Mynediad** | |
| 7. Cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn cadarnhau diben y polisi ar gyfer pob cynnig cyn bod y Grwpiau Arbenigol yn ymgynnull, a chyn hynny os yw’n bosibl. | Simon |
| 8. Gwnaeth Llywodraeth Cymru (LlC) ddarparu ffeithlun i’w gynnwys ar wefan LlC, i esbonio’r ffordd y byddai’r rhaglen yn gweithredu. Cytunwyd i ddiwygio’r ffeithlun. | Sarah |
| 9. Nodwyd y bydd angen cynnwys rhwydweithiau o dan adran mapio rhanddeiliaid y Cynllun Cyfathrebu. | |
| 10. Cytunwyd y byddai’n ddefnyddiol i aelodau’r Grŵp Cynghori Diwygio Mynediad weld naratif yr ymgynghoriad ar gyfer pob cynnig. | Sarah |
| 11. Cytunodd y Grŵp i symud cynnig 24 allan o gylch gwaith y Grŵp Cynghori Diwygio Mynediad, o ystyried na fyddai angen mewnbwn arbenigol manwl i’w ddatblygu. | Sarah |
| 12. Cytunodd y Grŵp i symud cynnig 21 i gylch gwaith y Grŵp Cynghori Diwygio Mynediad, oherwydd ei gymhlethdod canfyddedig. | |
| **Y camau nesaf** | |
| 13. Trafododd y Grŵp y dystiolaeth bosibl y gallai fod angen ei chasglu i gefnogi’r Grwpiau Arbenigol. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf. | Joe |
| 14. Trafododd y Grŵp y broses recriwtio ar gyfer y Paneli Arbenigol. Cytunwyd y byddai LlC yn dylunio’r templed Datgan Diddordeb (EoI), y Cylch Gorchwyl ar gyfer Grwpiau Arbenigol, a’r protocol recriwtio, a bydd y cyfan yn cael ei gytuno gan y Grŵp Llywio. | Tom |
| 15. Cytunwyd y byddai ffurflen Datgan Diddordeb y Grŵp Arbenigol a’r dogfennau ategol yn cael eu dosbarthu drwy’r Fforwm Mynediad Cenedlaethol gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac i’r rhai sydd wedi cysylltu’n benodol â Llywodraeth Cymru drwy’r Is-adran Hamdden Awyr Agored a Thirweddau. | |
| 16. Cytunwyd y byddai’n rhaid i ymgeiswyr posibl ddatgan gwrthdrawiad buddiannau. | |
| 17. Nodwyd y gallai fod angen mewnbwn arbenigwyr technegol e.e. wrth drafod y cynnig mapio digidol. | |
| 18. Cytunwyd y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflwyno papur yn nodi’r prosesau a awgrymwyd gan y Gweithgorau Arbenigol yn y cyfarfod nesaf. | Joe |
| 19. Cytunodd y Grŵp Llywio y byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob mis yng nghanolbarth Cymru. | |